3.39

# CLOCH DIRWEST.

Deffrowch, deffrowch ddirwestwyr, At eich gwaith, &c.;
Rhaid i chwi dd'od yn bybyr, At eich gwaith;
Mae meddwdod yn cynyddu yn llawer cwr o Gymru,
Gwir yw, nid gwiw ei gelu, At eich gwaith, &c.;
Gwnaed ysbryd Duw'ch cynhyrfu, At eich gwaith.

Pa beth a ddaw o'r bobl, Druain ffôl, &c.,
Sy'n gaethion gan ddiafol, Druain ffol;
Gwastraffant eu meddiannau am gwrw yn eu boliau,
I dd'rysu eu synhwyrau, Druain ffôl, &c.,
A damnio eu heneidiau, Druain ffôl.

Fel hyn y teithiant beunydd, Tua'r farn, &c.,
Tan feddwi yn ddig'wilydd, Tua'r farn;
Pwy bynag a'u cynghoro i roddi'r cwrw heibio,
Ant rhagddynt gan ei wawdio, Tua'r farn, &c.;
Ond sobrant nes pardduo, Yn y farn.

Byth! byth! hwy fyddant wedi'n, Yn y tân, &c.,
Heb yfed un dyferyn, Yn y tân;
Bydd arnynt r'wyf yn coelio fyrdd fwy o syched yno,
Pan fo'u tafodau'n fflamnio, Yn y tân, &c.;
Y DW'R maent hwy'n ddymuno, Yn y tân.

Ni chaiff y dynion meddwon, Fyn'd i'r nef, &c.,
Na neb o'r yfwyr cryfion, Fyn'd i'r nef;
Fe ddywed yr Ysgrythyr na chaiff y cyfeddachwyr,
Y gwingar na'r diottwyr, Fyn'd i'r nef, &c.,
Na'r cyfryw gau addolwyr, Fyn'd i'r nef.

1623 QV

O deued y Dirwestwyr, Trwy'r holl fyd, &c.,
Fel un-gwr maes i'r frwydyr, Trwy'r holl fyd,
A churwch fynu etto am filwyr i ardystio,
Pob oed a gradd a ddelo, Trwy'r holl fyd, &c.,
I ladd y llew sy'n llarpio, Trwy'r holl fyd.

Cyfeddach a diotta, Golwg drist, &c.,
Mae'r dynion wrth farchnatta, Golwg drist;
Ceir gweled mewn tafarnau grefyddwyr a'u cwpanau,
A'r meddwon wrth eu hochrau, Golwg drist, &c.;
Rhai'n meddwi mewn cornelau, Golwg drist.

Mae medd'dod y crist'nogion, Yn mhob gwlad, &c.,
Yn gwaradwyddo Seion, Yn mhob gwlad;
Mae enw Crist ar feddwon yn peri i'r pagan gwirion
I wrthod y newyddion, Yn mhob gwlad, &c.,
Am Geidwad colledigion, Yn mhob gwlad.

Mae'n bryd i tithau ddeffro, Seion clyw, &c.,
Rhag ofn i'r Brenin ddigio, Seion clyw,
Waith drw'ot ti mae Dirwest i ddisgwyl am y gongcwest,
Dy Dduw sydd wrth y gorchest, Seion clyw, &c.;
Gofala fod yn onest, Seion clyw.

Fe wawria'r dyddiau dedwydd, Cyn b'o hir, &c.,
Bydd meddwi'n ormod c'wilydd, Cyn b'o hir,
Daw addurn gwir santeiddrwydd a'r ffrwynau'r meirch
i'r Arglwydd,
A Phrydain heb wirodydd, Cyn b'o hir, &c.;
Caiff Dirwest fod yn llonydd, Cyn b'o hir.

---

*Argraffwyd gan M. Jones, Heol-Prior, Caerfyrddin.* 1850.

YZC 5203052